# Cais am Drwydded Storio o dan Reoliadau Ffrwydron 2014

- **Darllenwch y canllawiau cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon.**
- **Ni ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am drwydded i storio ffrwydron a restrir yn nodyn 1**
- **Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon *yn unig* os ydych am storio dim mwy na 2000kg o ffrwydron**
- **Os nad oes digon o le i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, cwblhewch ar dudalen(nau) ar wahân (gweler nodyn 2)**
- **Nodwch ei fod yn drosedd, o dan Adran 33 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 i ddarparu gwybodaeth anwir. Gall darparu gwybodaeth anghyflawn neu anwir arwain at oedi wrth brosesu eich cais.**
- **Gall y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys ar y ffurflen hon gael ei storio'n electronig. Gall y wybodaeth, lle y mae hynny'n briodol, gael ei rhannu â chyrff perthnasol eraill fel awdurdodau trwyddedu lleol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gallai fod gennych hawl i wneud cais am gopi o unrhyw wybodaeth bersonol a chywiro unrhyw gamgymeriadau.**
- **Cwblhewch y ffurflen hon gan ddefnyddio naill ai inc du neu deipio.**

**Mae'r cais hwn ar gyfer:** [*ticiwch y blwch perthnasol]*

Trwydded storio newydd ☐ Adnewyddu trwydded storio ☐

Os yw hwn yn gais ar gyfer adnewyddu, nodwch y dyddiad dod i ben a'r rhif cyfeirnod

Dyddiad dod i ben ______

Rhif Cyf. ______

**Natur y busnes:** *[ticiwch y categori sy'n berthnasol i'r cais]*

Tân Gwyllt – manwerthu ☐ Tân Gwyllt – mewnforio/cyfanwerthu ☐
Tân Gwyllt – gweithredwr arddangosfeydd ☐

Defnyddiwr Hamdden ☐ Arall [nodwch*)* ______

A ydych yn gwneud cais am drwydded lle y bydd storio yn destun pellteroedd gwahanu? *(Gweler nodyn 5)*
Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Manylion am yr ymgeisydd: [os ydych yn gwneud cais ar ran cwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig *(neu bartneriaeth yn yr Alban yn unig), nodwch ei enw.)***

Enw'r ymgeisydd:
______

Rhif Tŷ'r Cwmnïoedd *(os yn berthnasol)* ______

Dyddiad a man geni (lle y mae'r ymgeisydd yn unigolyn)
______

Rhif Y.C (lle y mae'r ymgeisydd yn unigolyn) ______

Cyfeiriad *[gan gynnwys cod post]. Os yw'r ymgeisydd yn gwmni, nodwych y swyddfa gofrestredig*
______

Rhif Ffôn yn ystod y dydd: ______

Rhif Ffôn Symudol:

E-bost:

Cyfeiriad llawn *(gan gynnwys cod post) lle y bydd y ffrwydron yn cael eu storio:*

A oes gennych stordy ar gyfer ffrwydron mewn cyfeiriad gwahanol i'r uchod? Oes Nac oes

Os oes, nodwch y cyfeiriad llawn gan gynnwys cod post y stordy hwn

A oes gennych drwydded ar gyfer y stordy hwn? Oes Nag oes

Os oes, darparwch rif y drwydded a'r dyddiad dod i ben

Rhif y Drwydded

Dyddiad dod i ben

**Os nad yr ymgeisydd yw perchennog/rheolwr y busnes, nodwch fanylion yr unigolyn sydd â chyfrifoldebau rheoli ar gyfer y ffrwydron sy'n cael eu storio o dan y drwydded.**

Enw

safle

Cyfeiriad gan gynnwys cod post *[os yn wahanol i'r uchod)*

Rhif Ffôn Cyswllt:

E-bost:

**Manylion cyswllt y tu allan i oriau (os yn wahanol i'r uchod) -** nodwch enw a rhif ffôn, gan gynnwys rhif symudol yr unigolyn y dylid cysylltu ag ef mewn argyfwng.

Enw'r cyswllt

Rhif Ffôn

Rhif Symudol

**Ffrwydron i'w storio a'u meintiau**

| Math o Berygl neu Rif UN | Faint (màs net - kg) |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

***[Ticiwch y blwch neu'r blychau perthnasol)***

1. Ydych chi (yr ymgeisydd) yn bwriadu storio mwy na 75kg (net) o fwledi a chetris neu eitemau pyrotechnegol mewn adeilad sydd y drws nesaf i eiddo domestig?
Ydw Nac ydw

2. Ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael trwydded flaenorol neu gofrestriad [1] wedi eu diddymu neu eu dirymu? Ydw ☐ Nac ydw ☐

3. Ydych chi (yr ymgeisydd) wedi derbyn euogfarn am unrhyw drosedd o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ***(Gweler nodyn 4)*** Ydw ☐ Nac ydw ☐

4. Ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael eich cyhuddo o unrhyw droseddau sy'n gysylltiedig â storio, gwerthu, darparu, mewnforio neu fod mewn meddiant o dân gwyllt a/neu unrhyw ffrwydron? ***(Gweler nodyn 4)***
Ydw Nac ydw

5. Ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael eich cyhuddo o unrhyw drosedd o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall gan gynnwys troseddau yn erbyn unigolion, troseddau'n ymwneud ag anonestrwydd a throseddau sy'n ymwneud â darparu cyffuriau a reolir? ***(Gweler nodyn 4)***
Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb 'Ydw' i unrhyw un o gwestiynau 2-5, nodwch ddyddiad(au) a manylion, gan gynnwys yr awdurdod trwyddedu a'r llys lle y derbyniwyd yr euogfarn

1 Gweler Rheoliad 11 o Reoliadau Gweithgynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005, SI 2005/1082

**Arwyddwyd gan yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd yr ymgeisydd)**

*Drwy arwyddo'r ffurflen hon, rydych yn cytuno y bydd y wybodaeth a ddarperir sy'n ymwneud â storio ffrwydron e.e. y math a'r maint yn cael ei rhannu â'r gwasanaethau brys, os bydd digwyddiad. Os ydych yn arwyddo ar ran cwmni, dylech fod yn Gyfarwyddwr neu gynnwys tystiolaeth ddogfennol fod y cais hwn wedi cael ei gymeradwyo gan fwrdd y cyfarwyddwyr.*
*Mae'n drosedd, o dan Adran 33 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 ac ati i ddarparu gwybodaeth anwir.*

Arwyddwyd ________ Dyddiad ________

Enw [ ] Safle/ Teitl y Swydd

Sefydliad *[os yn berthnasol]* [ ]

**Dylai'r ffurflen gais a'r ddogfennaeth ychwanegol i gefnogi'r cais gael eu hanfon at eich awdurdod trwyddedu.** *(Ticiwch y blychau er mwyn cadarnhau fod y canlynol wedi cael eu cyflwyno)*

**Ffi'r Ymgeisydd:** *[gweler nodyn10]* ***(os nad ydych yn siŵr o'r ffi, gofynnwch i'ch awdurdod trwyddedu.)***

**Taflen Wybodaeth Ychwanegol** *(os yn berthnasol) [gweler nodyn 2]*
**Cynllun y Safle:** *[gweler nodiadau 6, 7 ac 11]* ☐

**Cynllun Llawr:** ***(os bydd ffrwydron yn cael eu cadw ar lawr y siop neu mewn adeilad sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bwriadau eraill, yn ogystal â storio ffrwydron)*** *[gweler nodiadau 8, 9 ac 11]*

**Ar gyfer defnydd yr awdurdod trwyddedu'n unig:**

**Ffurflen Gais wedi ei Chwblhau** ☐

**Ffi wedi ei gynnwys** ☐

**Cynllun Safle wedi ei gynnwys** ☐

**Cynllun Llawr yr Adeilad wedi ei gynnwys** *(os yn berthnasol)* ☐

## Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

**PWYSIG** Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn ymwybodol ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Ffrwydron 2014. Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r pŵer i wahardd storio ffrwydron ar safle y cred nad sydd bellach yn addas. Gall hefyd gymryd camau gorfodi os nad ydych yn storio'n ddiogel.

Os ydych yn bwriadu darparu tân gwyllt **y tu allan** i'r cyfnod cyffredin a ganiateir e.e. y Flwyddyn Newydd, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, 15 Hydref - 10 Tachwedd a Diwali, bydd angen i chi hefyd gwblhau ffurflen gais ar wahân i'ch awdurdod trwyddedu ar gyfer trwydded sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Tân Gwyllt 2004.

Gwybodaeth gyffredinol wrth gwblhau'r cais

1. **Ni** ddylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio â chais am drwydded i storio'r ffrwydron y rhestrir isod:

- ffrwydron perthnasol (mae angen tystysgrif ffrwydron er mwyn cael neu gadw ffrwydron)

- meddu ar ffrwydron a chetris sy'n cael eu rheoleiddio neu eu gwahardd gan Ddeddf Arfau Tanio 1968 i 1997

- powdwr di-fwg neu gapiau taro

- ffrwydron a storir gan unigolyn sy'n gofrestredig fel deliwr arfau tanio o dan adran 33 o Ddeddf Arfau Tanio 1968

**Os ydych am storio'r ffrwydron a restrir uchod, dylech ddefnyddio ffurflen ER2**

**Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon yn unig os ydych am storio mwy na 2000kg o ffrwydron.** Os ydych am storio mwy na 2000kg o ffrwydron, dylech wneud cais i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am drwydded. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch trwyddedu yn **www.hse.gov.uk/explosives/licensing/how-to-apply.htm**

2. Os nad oes digon o le er mwyn darparu'r wybodaeth ofynnol, parhewch ar dudalen(nau) ar wahân. Dylech hefyd nodi'ch enw a'ch cyfeiriad ar frig pob tudalen cyn i chi eu hatodi i'ch ffurflen gais.

3. Cysylltwch â'ch awdurdod trwyddedu lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cwblhau'r ffurflen neu am eich cais. Os ydych yn byw mewn siroedd metropolitan (h.y. Canolbarth Gorllewin Lloegr, Glannau Mersi, Manceinion, Tyne and Wear, De a Gorllewin Swydd Efrog) neu yn Swydd Rhydychen, Cernyw neu Norfolk bydd angen i chi wneud cais i'r gwasanaeth tân ac achub. Mewn ardaloedd eraill, bydd angen i chi, fel arfer, gysylltu ag adran safonau masnach eich awdurdod lleol.

4**.** Nodwch: Gall unrhyw euogfarnau blaenorol fod yn destun Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a does dim angen i chi gynnwys euogfarnau sydd wedi'u disbyddu ar y ffurflen gais hon. Nid yw'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn berthnasol i gyrff corfforaethol neu gwmnïau. Lle y mae'r cais yn cyfeirio at gorff corfforaethol neu gwmni, dylid rhestri euogfarnau pob cyfarwyddwr. Lle y mae'r cais, yn cyfeirio yn yr Alban at bartneriaeth, dylid rhestri euogfarnau pob partner. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar sut y bydd Awdurdodau Trwyddedu yn ystyried perthnasrwydd euogfarnau blaenorol ar gais am drwydded ar www.hse.gov.uk/explosives/index.htm <file:///C:\Users\dthomas1\AppData\Local\Microsoft\Windows\Temporary%20Internet%20Files\Content.Outlook\Documents%20and%20Settings\dthomas1\trim\TopDrawer\Offline%20Records%20(P1)\HAZARDOUS%20~%20DEVELOPMENT%20-%20National%20Legislation(3)\www.hse.gov.uk\explosives\index.htm>

5. pellteroedd gwahanu - gweler Rheoliad 27 o reoliad Ffrwydron 2014. Fel arfer, bydd angen i chi sicrhau pellteroedd gwahanu os ydych yn storio **ddim rhagor** na:

- 250kg HT4

- 25kg HT3 (neu gyfuniad o HT3 a HT4)

- 0.1kg HT1

- 0.1kg HT2

ar un safle. Os ydych yn ansicr a yw'ch stordy neu'r safleoedd lle y byddwch yn gweithgynhyrchu neu'n prosesu ffrwydron ar y safle yn destun i bellteroedd gwahanu, cysylltwch â'ch awdurdod trwyddedu lleol.

**Dylai'r ffurflenni canlynol gael eu hamgáu ar y cyd â'r ffurflen gais:**

6. Cynllun i raddfa ddigonol yn dangos lleoliad y safle, mewn perthynas â'r hyn sydd o'i amgylch (h.y. ffyrdd a enwir neu sydd wedi eu rhifo, anheddau, pentrefi neu nodweddion daearyddol.) Lle nad oes gan y safle gyfeiriad post, dylai lleiafswm y raddfa fod yn 1:25000.

7. Os yw'r stordy yn destun pellteroedd gwahanu bydd angen i chi hefyd ddarparu map Cynllun Safle Arolwg Ordnance (neu debyg) yn dangos lleoliad y stordy a'r pellteroedd i unrhyw adeiladau cyfagos. Dylai'r cynllun hefyd ddangos unrhyw ardaloedd lle yr ydych yn bwriadu prosesu neu weithgynhyrchu trwyddedau lle nad oes angen trwydded i wneud hynny o dan reoliad 6 o ER2014. Bydd y raddfa'n dibynnu ar y pellter gwahanu. Ar gyfer pellter o hyd at 200 metr, fel arfer bydd angen graddfa o 1:1250. Bydd angen graddfa o 1:2500 neu hyd yn oed Gynllun Arbennig ar gyfer pellteroedd mwy. Os yw'r cynllun hwn yn dynodi'r eglur lleoliad y safle, mewn perthynas â'r hyn sydd o'i amgylch, gellir ei ddefnyddio yn lle'r cynllun a nodir yn 6, uchod.

8. Os ydych yn bwriadu storio neu arddangos mwy na 12.5kg o dân gwyllt ar lawr y siop, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gofyn i chi gyflwyno cynllun llawr o'r ardal gwerthu.

9. Os ydych yn bwriadu storio, prosesu neu weithgyngyrchu ffrwydron mewn adeilad sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion eraill, dylech gynnwys cynllun llawr yn dangos y mannau, oddi fewn i'r adeilad lle yr ydych yn bwriadu storio, prosesu neu weithgynhyrchu'r ffrwydron.

10. Dylai'r ffi hefyd gael ei gynnwys gyda'r cais. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar ffioedd ar www.hse.gov.uk/explosives/licensing/fees.htm, neu cysylltwch â'r awdurdod trwyddedu am gyngor.

**Adnewyddu trwydded**

11. Os nad oes unrhyw newidiadau perthnasol wedi bod o ran defnydd y safle, ei gynllun neu'r mannau y mae'r ffrwydron yn cael eu storio, neu o ran lleoliad y safle â lleoedd a ddiogelir ers i'r drwydded wreiddiol gael ei chyflwyno neu ei hadolygu, yna ni fydd angen, yn gyffredinol i gynllun newydd gael ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu.

**Math o berygl a maint**

12. Bydd angen i'r awdurdod trwyddedu wybod am y math o berygl a faint o ffrwydron yr ydych yn dymuno eu storio er mwyn pennu addasrwydd eich stordy. Bydd faint y bydd gennych hawl i'w storio'n ddibynnol ar y math o berygl a fydd gan y ffrwydron. Cysylltwch â'ch darparwr os ydych yn ansicr ynghylch gwahanol fathau o beryglon y ffrwydron y dymunwch eu storio.

13. Mae'r 'maint' yn cyfeirio at '***más net'*** y ffrwydron. Golyga hyn, bwysau'r ffrwydron a gynhwysir h.y. heb becynau ac ati.

**Cyfnod dilysrwydd**

14. Gall trwyddedau ar gyfer tân gwyllt a ffrwydron eraill nad sydd angen tystysgrif ffrwydron gael eu caniatáu am hyd at 5 mlynedd, yn unol â'r hyn y mae'r awdurdod trwyddedu'n ei bennu.

**Yswiriant**

15. Yn gyfreithiol, mae'n ofynnol i'r mwyafrif o gyflogwyr amddiffyn rhag atebolrwydd niwed neu afiechyd i'w cyflogai yn sgil eu cyflogaeth. Mae Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 yn sicrhau fod gennych o leiaf lefel isafswm yswiriant yn erbyn unrhyw geisiadau o'r fath. Am ragor o wybodaeth, ewch i http://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf

16. Nid yw yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ofynnol gan gyfraith iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, os hydych yn gweithgynhyrchu neu'n storio ffrwydron (gan gynnwys tân gwyllt) efallai y byddwch yn dymuno sicrhau fod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae nifer o sefydliadau yn y diwydiant masnachol a chyrff proffesiynol yn nodi hyn fel amod aelodaeth. Mae'n ofynnol i weithredwyr arddangosfeydd proffesiynol sy'n defnyddio tân gwyllt categori F4, pyrodechnegau theatraidd T2 neu eitemau pyrodechnegol P2 feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.